Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Carys Roberts**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/10/2023

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth, ac maent yn hyderus i gyfleu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn cefnogi'r plant mewn modd cadarnhaol. Mae'n ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddi eu dilyn i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a chyfforddus i'r plant ac yn sicrhau y caiff peryglon a risgiau eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae'n darparu ystod eang o adnoddau a phrofiadau ysgogol a chyffrous i'r plant i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, corfforol a chreadigol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plentyn. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei bod yn cadw cofnodion cyfredol o ymarferion tân a dyddiadau adolygu dogfennau.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac wedi setlo. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y teganau a'r gweithgareddau, ac yn gallu dewis adnoddau sydd wedi cael eu storio o fewn eu cyrraedd. Maent yn hyderus i ddilyn eu diddordebau eu hunain a dangos yr hyn y maent am ei gael i'r gwarchodwr plant. Er enghraifft, drwy ofyn i'r gwarchodwr plant eu helpu i roi cewyn ar eu doli.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant, a gyda'i gilydd. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roeddent yn hyderus i siarad â ni am y gwaith celf roeddent wedi bod yn ei greu y bore hwnnw, ac i ddangos yr hyn roeddent yn chwarae ag ef. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant neu'r cynorthwywyr gwarchod plant i gael cysur, ac maent yn cael anogaeth gadarnhaol a mwythau pan fo angen. Er enghraifft, pan oedd y plant yn teimlo ychydig yn gynhyrfus ar ôl deffro, roeddent yn setlo ar ôl cael mwythau a thawelwch meddwl gan warchodwr plant.

Mae'r plant yn rhannu adnoddau ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda. Er enghraifft, maent yn hapus i rannu dillad y dolis, rhoi eitemau o'r fasged i'w gilydd a dangos eu dolis wedi'u gwisgo i'w gilydd. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant am yr hyn y maent yn ei wneud, ac maent yn awyddus i'w cynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, gwelsom un o'r plant yn sgwrsio'n fodlon â'r cynorthwyydd gwarchod plant am y gwartheg yn y cae, gan ddweud y byddai'n hoffi bwydo'r gwartheg yn hwyrach yn y prynhawn.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda. Er enghraifft, roeddent yn mwynhau defnyddio eu dychmygu i chwarae yn y gegin chwarae yn fawr iawn, gan esgus gwneud paneidiau o de i'r cynorthwyydd gwarchod plant. Roeddent yn sgwrsio â hi am fynd â'u 'babi' am dro yn y pram i'r siop, ac yn trafod yr hyn y byddent yn hoffi ei brynu.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio digon o amser yn yr awyr agored. Maent yn defnyddio'r ardd mor aml â phosibl ac yn mynd i feysydd chwarae a mannau o ddiddordeb yn rheolaidd, lle maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n gorfforol ac yn gymdeithasol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau, bwydo eu hunain a golchi eu dwylo eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder a hybu eu hannibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan y gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu a gallent ddisgrifio'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant wedi cwblhau'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig diweddaraf, sy'n golygu eu bod yn barod i ddelio ag unrhyw ddamweiniau neu argyfyngau a all ddigwydd. Caiff damweiniau eu cofnodi'n briodol, a chaiff y cofnodion eu llofnodi gan y rhieni, i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y digwyddiad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng drwy sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion hyn bob amser yn cael eu cofnodi.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach drwy sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i dreulio amser yn yr awyr agored. Mae'n sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr drwy'r dydd, gan hyrwyddo arferion hydradu da. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu hylendid da yn effeithiol drwy annog y plant i olchi eu dwylo pan fo'n briodol. Mae'n darparu prydau a byrbrydau iach ac mae wedi mynychu hyfforddiant ar faeth i blant bach yn ddiweddar, sydd wedi ei helpu i gynllunio bwydlen iach ac amrywiol.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwywyr gwarchod plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Maent yn siarad â'r plant mewn modd caredig a chyfeillgar ac yn delio ag unrhyw ymddygiad digroeso yn bwyllog ac yn deg. Maent yn defnyddio dulliau cadarnhaol i ailgyfeirio'r plant os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiad annerbyniol. Er enghraifft, drwy gyfleu eu disgwyliadau'n glir mewn perthynas â rhannu ac ymddwyn yn briodol yn ystod gweithgareddau a thrwy dynnu sylw'r plant a'u hailgyfeirio os byddant yn dechrau ymddwyn yn amhriodol. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn amlinellu'r arferion a welwyd yn ystod ein hymweliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n ddiddorol ac sy'n helpu'r plant i ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'n nodi diddordebau unigol y plant yn ogystal â'r sgiliau y mae angen i bob plentyn eu datblygu. Yna mae'n cynllunio gweithgareddau a fydd o ddiddordeb i'r plant ac yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau penodol hyn, gan eu gwneud yn gyffrous ac yn ystyrlon i bob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu digon o wybodaeth am y plant cyn iddynt ddechrau mynychu'r lleoliad, gan ei galluogi i gynllunio i ddiwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol. Caiff adnoddau tracio datblygiad a nodiadau arsylwi ar gynnydd y plant eu cadw yn eu ffeiliau unigol, gan alluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu camau dysgu nesaf.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg manwl ar waith sy'n nodi'r peryglon posibl a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Caiff asesiadau risg ar wahân eu cwblhau ar gyfer unrhyw deithiau neu weithgareddau newydd. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn cofnodi dyddiadau adolygu'r asesiadau risg ar gyfer y safle. Caiff cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, yn ogystal â phwy sy'n gofalu amdanynt, ei chadw, ynghyd â chofnod o'r holl ymwelwyr â'r safle.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn darparu amrywiaeth dda o ardaloedd chwarae a phrofiadau i'r plant. Mae wedi gosod ystafell chwarae ddynodedig yn y prif dŷ yn ogystal ag ardal chwarae mewn caban allanol, lle mae gan y plant rwydd hynt i fynd i'r ardd. Ceir amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a gweithgareddau i'r plant eu mwynhau ym mhob un o'r ardaloedd dan do ac awyr agored. Ceir hefyd gadeiriau, clustogau a bagiau ffa cyfforddus er mwyn i'r plant ymlacio a threulio amser tawel os byddant am wneud hynny. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i'r plant ddewis o'u plith, gan gynnwys doliau, llyfrau, cerbydau bach, jig-sos, teganau adeiladu, a deunyddiau celf a chrefft. Mae'n trefnu'r teganau a'r gemau yn dda ac yn eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal chwarae awyr agored ddeniadol sy'n cynnig digon o le i'r plant chwarae, archwilio a defnyddio eu synhwyrau. Mae hyn yn cynnwys cegin fwd â digon o adnoddau, gwely llysiau, cyfarpar dringo a sleid i'r plant allu datblygu eu sgiliau corfforol a'u dychymyg. Mae'r safle wedi'i leoli ar fferm ac mae'r gwarchodwr plant yn aml yn mynd â'r plant am dro o amgylch y caeau i weld yr anifeiliaid ac i chwilio am fywyd gwyllt a phlanhigion ger yr afon.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae ganddi seddi toiled i blant bach a stôl step yn yr ystafell ymolchi er mwy i'r plant allu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cylchdroi'r teganau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau gwahanol. Mae'r holl deganau ac adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Darperir amrywiaeth eang o ddeunyddiau synhwyraidd a naturiol i'r plant eu harchwilio, gan eu galluogi i ddefnyddio eu synhwyrau ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae ganddi amrywiaeth o bolisïau ar waith i'w galluogi i redeg ei gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r polisïau hyn yn glir ac yn llawn gwybodaeth, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff y dyddiad y cânt eu hadolygu bob amser ei nodi. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys disgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir, gan roi digon o wybodaeth i rieni wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni yn rheolaidd ac yn defnyddio ei harsylwadau ar y plant i roi newidiadau ar waith yn unol â'u dewisiadau, gan wella'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig yn barhaus. er enghraifft, drwy brynu teganau a deunyddiau crefft ar sail yr hyn y mae'r plant yn ei hoffi, a'r eitemau y maent yn defnyddio'n amlaf wrth chwarae. Mae'n nodi gwelliannau arfaethedig ac unrhyw welliannau a wnaed hyd yma mewn adroddiad manwl ar yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda. Mae'n sicrhau bod ganddi hi a'i chynorthwywyr gwarchod plant wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol ac i weithio â theuluoedd i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae hefyd y sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael gwybod am ddigwyddiadau o bwys neu newidiadau i'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac mae'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol â nhw, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth dda am amser eu plentyn yn y lleoliad. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn drwy negeseuon preifat ac adborth ar lafar ar ddiwedd pob dydd. Caiff llyfrau atgofion gyda lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a samplau o'u gwaith hefyd eu creu a'u rhannu â'r rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu hadolygu'n flynyddol ac y caiff eu dyddiadau adolygu eu cofnodi. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y cedwir cofnodion cywir o ymarferion tân. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff dyddiadau adolygu polisïau'r lleoliad eu cofnodi. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/11/2023